# Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 215/2017
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

# Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

**Cynulleidfa**
Cyrff llywodraethu a staff holl ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau lleol (ALlau); byrddau iechyd; rhieni/gofalwyr a sefydliadau sydd â diddordeb.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn disodli fersiwn gynharach o'r canllawiau hyn sef *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* Llywodraeth Cynulliad Cymru Cylchlythyr Rhif: 003/2010 (2010).

**Camau i'w cymryd**
Dylai'r ddogfen hon gael ei dwyn i sylw rheolwyr a staff perthnasol, ALlau, cyrff llywodraethu a gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd sy'n gweithio gyda lleoliadau addysg.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn
llyw.cymru/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**
*Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (Llywodraeth Cymru, 2010); *Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2014); *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion* (Llywodraeth Cymru, 2016); *Law yn llaw at iechyd meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru* (2012)

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31248 ISBN digidol 978 1 4734 9125 0

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **2**
1.1 Ynghylch y canllawiau hyn 2
1.2 O dan ba ddeddfwriaeth y cyhoeddwyd y canllawiau hyn? 3
1.3 Hawliau dysgwyr 3
1.4 Egwyddorion cyffredinol wrth gwrdd ag anghenion gofal iechyd dysgwyr 3
**2. Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd** **6**
2.1 Egwyddorion allweddol 6
2.2 Rolau a chyfrifoldebau 6
2.3 Creu amgylchedd ddysgu hygyrch 11
2.4 Rhannu gwybodaeth 14
2.5 Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr 15
2.6 Storio, mynediad at a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau 15
2.7 Gweithdrefnau argyfwng 18
2.8 Hyfforddiant 18
2.9 Arholiadau cymhwyster ac asesiadau cwricwlwm cenedlaethol 19
2.10 Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) 20
2.11 Dysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol 21
2.12 Integreiddio 21
2.13 Cludiant i'r ysgol 22
2.14 Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau 22
2.15 Trefniadau yswiriant 22
2.16 Gweithdrefn cwynion 23
**3. Cynlluniau gofal iechyd unigol (CIU)** **24**
3.1 Cyflwyniad 24
3.2 Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CIU 25
3.3 Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, y dysgwr a chleifion 26
3.4 Cyfrinachedd 26
3.5 Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain 26
3.6 Cadw cofnodion 26
**4. Arfer annerbyniol** **27**
**Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol** **29**
**Atodiad 2: Templedi ffurflenni** **33**
**Atodiad 3: Cysylltiadau defnyddiol** **46**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ynghylch y canllawiau hyn

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i helpu awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, lleoliadau addysg, gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd a sefydliadau eraill i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau'r amhariad lleiaf ar eu haddysg. Mae'n cynnwys canllawiau statudol a chyngor anstatudol.

Yn y ddogfen hon, mae'r term 'lleoliad addysg' yn cyfeirio at ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion.

O ran unedau cyfeirio disgyblion, mae 'corff llywodraethol' yn cyfeirio at y pwyllgor rheoli a 'phennaeth' yn cyfeirio at yr athro/athrawes sydd â gofal.

Mae'r term 'rhiant (rhieni)' hefyd yn cyfeirio at 'ofalwr(wyr)'.

Caiff y ddogfen gyfan hon ei chyhoeddi fel canllawiau statudol i:

- cyrff llywodraethu ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir
- awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n cynnwys unedau cyfeirio disgyblion

ac mae'n darparu cyngor anstatudol i bersonau neu gyrff eraill a all fod â rôl wrth helpu i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

**Rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw[1] i'r canllawiau statudol hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran hyrwyddo lles plant sy'n ddysgwyr yn y lleoliad addysg, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.

Mae angen ymagwedd gydweithredol a rhagweithiol i ddarparu cymorth effeithiol ac unigol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol ac yn atebol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

### Pwyntiau allweddol

- Dylai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael eu cefnogi'n briodol fel eu bod yn cael mynediad llawn at addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.
- Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
- Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod staff y lleoliad addysg yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, dysgwyr a rhieni i sicrhau bod anghenion y dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall yn iawn a'u cefnogi'n effeithiol.

[1] Mae 'rhoi sylw i' yn golygu ystyried y canllawiau hyn a'u hystyried yn ofalus. Wedi gwneud hynny, byddai angen bod rheswm da i gyfiawnhau peidio â chydymffurfio â nhw.

## 1.2 O dan ba ddeddfwriaeth y cyhoeddwyd y canllawiau hyn?

Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ysgol neu le dysgu arall. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant gydag anghenion gofal iechyd.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

Mae adran 21(5) Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo lles dysgwyr yn yr ysgol i'r graddau sy'n gysylltiedig â'r materion a grybwyllir yn adran 25(2) Deddf Plant 2004, sy'n cynnwys iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, a lles cymdeithasol.

Cyhoeddir y cyngor anstatudol sy'n y ddogfen hon drwy arfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru[2] a'u pŵer mewn perthynas â hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru[3].

Mae 'Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol' ar dudalen 29 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am fframwaith gyfreithiol y ddogfen ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

## 1.3 Hawliau dysgwyr

Mae gan bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd hawl i addysg lawn. Yn ogystal â'r dyletswyddau a nodir uchod (Deddf Addysg 2002), mae'n rhaid hefyd ystyried a gaiff y dysgwr ei ddiffinio'n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[4]. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf hon, gan gynnwys y rhai o fewn cyd-destun addysg. Er enghraifft, mae'n rhaid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl a rhaid peidio â gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl wrth wneud trefniadau derbyn. Wrth ddrafftio'r canllawiau statudol a'r cyngor hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i CCUHP – mae'r cynnwys yn adlewyrchu'r hawliau a gynhwysir yn y confensiwn[5].

## 1.4 Egwyddorion cyffredinol wrth gwrdd ag anghenion gofal iechyd dysgwyr

Mae materion gofal iechyd yn effeithio ar bob dysgwr yn unigol a gall cefnogaeth gan y lleoliad addysg gael effaith ar ansawdd eu bywyd a chyfleoedd yn y dyfodol. Felly, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau bod trefniadau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion penodol y dysgwr ac ystyried sut y mae hyn yn effeithio ar eu haddysg,

[2] Adran 10 Deddf Addysg 1996 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/10 Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 10 mewn perthynas â Chymru wedi cael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru. Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 (Trosglwyddo Swyddogaethau) (S.I. 1999/672) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11.
[3] Adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/60
[4] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents
[5] www.hawliauplant.cymru

cyrhaeddiad a lles. Dylai trefniadau roi hyder i ddysgwyr a rhieni bod y ddarpariaeth yn addas ac yn effeithiol.

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau yn cefnogi dysgwyr yn iawn a'u bod yn lleihau aflonyddwch neu rwystrau i'w haddysg. Dylai trefniadau hefyd ystyried unrhyw ddyletswyddau diogelu ehangach tra'n ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at a mwynhau'r un cyfleoedd.

Mae hyn yn cynnwys creu a chynnal polisïau gofal iechyd effeithiol yn yr awdurdod lleol ac yn y lleoliad addysg. Nid oes disgwyl i'r polisi fod yn hir neu'n gymhleth nac ymdrin â phob cyflwr meddygol posibl, ond dylai fod â dull eang a pherthnasol i'r awdurdod lleol neu'r lleoliad addysg unigol. Bydd angen iddo fod ar gael ar-lein i rieni a dysgwyr ei ddarllen ac heb fod yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol neu gyfrinachol.

Bydd gan lawer o ddysgwyr angen gofal iechyd tymor byr ar ryw adeg. Gyda chymorth priodol, dylent fod yn gallu bod yn bresennol a chymryd rhan reolaidd yn y rhan fwyaf o weithgareddau. Fodd bynnag, efallai y bydd gan rai dysgwyr anghenion gofal iechyd tymor hir neu sylweddol sy'n effeithio ar eu gallu gwybyddol neu gorfforol, eu hymddygiad neu eu cyflwr emosiynol, a allai fod angen cymorth ychwanegol.

Mae angen rhoi ystyriaeth i ddarparu'r cwricwlwm yn hyblyg i helpu dysgwyr i ailintegreiddio â'r lleoliad addysg yn ystod cyfnodau o absenoldeb, e.e. trwy astudio rhan-amser addas, darpariaeth amgen gan yr awdurdod lleol a dychwelyd yn raddol.

Mae dull cydweithredol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cefnogaeth yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar ddymuniadau a chyngor y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd. Mae'n rhaid i les pennaf y dysgwr fod yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Lle bo modd, dylai'r dysgwr gael eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth a hyder er mwyn hunan-reoli anghenion gofal iechyd yn gynyddol, yn dibynnu ar eu gallu i wneud hynny. Weithiau cyfeirir at hyn fel 'cymhwysedd Gillick'.

Wrth wneud trefniadau i gefnogi dysgwyr, mae rolau penodol y gellir eu gosod ar y corff llywodraethol a staff y lleoliad addysg. Er y gall cefnogaeth fel hyfforddiant neu gyngor gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol neu sefydliadau gael ei gyflwyno o'r tu allan, yn y pen draw mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am, a rhaid iddo hyrwyddo, lles pob dysgwr yn yr ysgol[6].

Mae trefniadau aml-asiantaeth rhwng lleoliadau addysg, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, awdurdodau lleol, rhieni a dysgwyr yn hanfodol bwysig. Dylai polisïau a gweithdrefnau anghenion gofal iechyd adnabod y trefniadau gweithio ar y cyd a dangos sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

[6] Adran 21(5) Deddf Addysg 2002. Gweler hefyd adran 175 Deddf Addysg 2002 – rhaid i gorff llywodraethu (ymhlith eraill) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn *Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc* (2012) Llywodraeth Cymru[7]. Mae'n disgrifio sut y dylai sefydliadau lleol, gan gynnwys byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i asesu angen a rhoi pecynnau gofal parhaus ar waith. Dylai pawb sydd â chyfrifoldeb am gynllunio a darparu gofal parhaus i blant a phobl ifanc ei ddarllen.

[7] gov.wales/docs/phhs/publications/121127carecy.pdf

# 2. Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod cynlluniau, trefniadau a gweithdrefnau i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ar waith ac y cânt eu gweithredu'n briodol ac yn effeithiol. Gallai'r trefniadau a'r gweithdrefnau hyn gael eu gosod o fewn polisi anghenion gofal iechyd unigol ar gyfer y lleoliad addysg. Byddai hyn yn darparu canllaw hygyrch i gynorthwyo staff wrth ymateb i anghenion gofal iechyd dysgwyr. Mae angen i'r polisi anghenion gofal iechyd fod ar gael ar-lein ac ni ddylai gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol neu gyfrinachol.

Dylai cyrff llywodraethu ofyn am gyngor gan eu hawdurdod lleol, bwrdd iechyd ac unrhyw weithwyr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol perthnasol eraill er mwyn datblygu'r trefniadau hyn.

## 2.1 Egwyddorion allweddol

Dylai'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried wrth ddatblygu trefniadau a gweithdrefnau, er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

- Dylai staff ddeall a gweithio o fewn egwyddorion cynwysoldeb.
- Dylid cynllunio gwersi a gweithgareddau mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd gymryd rhan lawn.
- Dylai staff ddeall eu rôl wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a dylid darparu hyfforddiant priodol.
- Dylai staff deimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
- Dylai staff fod yn ymwybodol o anghenion eu dysgwyr drwy rannu anghenion gofal iechyd y dysgwr unigol yn briodol a chyfreithlon.
- Pryd bynnag y bo'n briodol, dylai dysgwyr gael eu hannog a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

## 2.2 Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r canlynol yn cynrychioli safon yr arfer gofynnol a ddisgwylir, er y gall rolau amrywio rhwng lleoliadau addysg.

### a. Awdurdodau lleol

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod darpariaeth addysg ar gael i ddysgwyr, a:

- rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn un sy'n golygu rhagweld. Er enghraifft, ni ddylai dysgwyr fod o dan anfantais wrth adael yr ysgol gynradd a dechrau'n yr ysgol uwchradd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i addasiadau gael eu cynllunio a'u rhoi ar waith o flaen llaw er mwyn atal unrhyw anfantais. Ni ddylai trafodaethau ynghylch y cyfrifoldeb am ddarpariaeth effeithio ar ddarparu gwasanaeth, gan y gallai oedi fod yn niweidiol i addysg a lles y dysgwr

- rhaid gwneud trefniadau i hybu cydweithio rhwng gwahanol gyrff neu bobl, gyda golwg ar wella, ymhlith pethau eraill, lles plant o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol, eu haddysg, hyfforddiant a hamdden[8]. Wrth wneud y trefniadau hyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu data. Gallai hyn fod drwy weithio o fewn Protocolau Rhannu Gwybodaeth neu Gytundebau Datgelu Data Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydlynwyr WASPI sy'n gallu cefnogi darparwyr gwasanaeth i ddatblygu cytundebau priodol
- rhaid cynnig darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela i bobl ifanc 11–18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd[9]. O fewn ysgolion, dylai'r ddarpariaeth hon gyd-fynd â'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr
- dylent weithio gyda lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg addas. Pan na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd eu hiechyd, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu addysg addas[10]. Os yw dysgwr dros yr oedran ysgol gorfodol ond o dan 18 oed, gall yr awdurdod lleol wneud trefniadau o'r fath
- dylent ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys cwrdd ag anghenion hyfforddi staff lleoliadau addysg, fel y gall cyrff llywodraethu sicrhau y caiff y gefnogaeth a nodir yn y cynllun iechyd unigol (CIU) (gweler 'Adran 3: Cynlluniau gofal iechyd unigol (CIU)' ar dudalen 24) ei darparu'n effeithiol.

### b. Cyrff llywodraethu

Dylai cyrff llywodraethu oruchwylio datblygiad a gweithredu'r trefniadau, a ddylai gynnwys:

- cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (e.e. y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd os ydynt yn anabl, fel yr amlinellir uchod)
- bod â dyletswydd statudol i hyrwyddo lles dysgwyr. Dylai ysgolion ystyried sut y gallant gwrdd â'r anghenion hyn, gan gynnwys darparu mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a deunydd, sy'n anelu at hyrwyddo lles ysbrydol a moesol ac iechyd corfforol a meddyliol (Erthygl 17 CCUHP)
- ystyried sut y gallant gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a gwydnwch emosiynol sy'n ofynnol i sicrhau eu hawliau, a hawliau pobl eraill
- sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan yn y trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir ac yn ddealladwy i bawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys unrhyw ddirprwyo priodol o gyfrifoldebau neu dasgau i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol fel y bo'n briodol
- gweithio ar y cyd â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd i gwrdd â lles pennaf y dysgwr

[8] Adran 25 Deddf Plant 2004 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/section/25
[9] gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/schoolcounselling/statutory-guidance-independent-counselling-services/?skip=1&lang=cy
[10] Adran 19 Deddf Addysg 1996 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/19

- datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a lle bo'n briodol, CIU ar gyfer dysgwyr penodol
- sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau gofal iechyd
- sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau argyfwng
- sicrhau bod systemau cadarn diogelu yn bodoli ar gyfer delio ag argyfyngau iechyd a digwyddiadau critigol, ar gyfer gweithgareddau ar ac oddi ar y safle, gan gynnwys mynediad i feddyginiaeth argyfwng fel anadlwyr neu ben adrenalin
- sicrhau bod staff sydd â chyfrifoldeb ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyfforddi'n briodol (gweler adran '2.8 Hyfforddiant' ar dudalen 18).
- sicrhau bod yswiriant priodol yn ei le, y cydymffurfir ag unrhyw amodau a bod staff yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu iddynt wrth gefnogi dysgwyr
- cael polisi atal heintiau sy'n adlewyrchu'n llawn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau cyfredol[11].

### c. Penaethiaid

Dylai'r pennaeth sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr yn cael eu datblygu'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol. Gall hyn gynnwys:

- gweithio gyda'r corff llywodraethol i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr wedi'u deall yn llawn gan bawb sy'n rhan ohonynt ac y gweithredir arnynt, ac y caiff camau gweithredu o'r fath eu cynnal. Mewn lleoliadau addysg mwy o faint gallai fod yn fwy ymarferol i ddirprwyo'r gwaith o reoli anghenion gofal iechyd dysgwr i aelod arall o staff. Dylai'r pennaeth oruchwylio'r trefniant hwn yn uniongyrchol fel rhan o'r trefniadau adrodd a goruchwylio rheolaidd
- sicrhau bod y cymorth a roddir ar waith yn canolbwyntio ar ac yn diwallu anghenion y dysgwr unigol, a elwir hefyd yn gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion[12]
- ymestyn ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad addysg yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys staff cymorth, staff arlwyo a staff cyflenwi, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- penodi aelod penodol o staff sy'n gyfrifol am ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni, dysgwyr, y gwasanaeth dysgu gartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr
- sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir yn yr holl CIU, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd brys ac absenoldeb staff
- cyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu CIU

[11] www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan
[12] learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf

- sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd briodol ac urddasol i gyflawni eu hanghenion gofal iechyd, e.e. toiledau preifat ar gyfer cathetreiddio
- gwirio gyda'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys yn briodol gan yswiriant a gwneud staff yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau ar y gweithgareddau a gwmpesir
- sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cysylltu'n briodol â gwasanaeth cyngor iechyd y lleoliad addysg
- sicrhau pan bo dysgwr ar leoliad profiad gwaith neu debyg, bod cymorth gofal iechyd priodol wedi cael ei gytuno a'i roi ar waith
- darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr
- sicrhau na chaiff unrhyw ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd eu heithrio o weithgareddau y byddent fel arfer â'r hawl i gymryd rhan ynddynt heb reswm yn seiliedig ar dystiolaeth glir
- hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r lleoliad addysg am gyfnod sylweddol, e.e. tair wythnos (boed mewn un cam neu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfan) oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn sy'n gwneud cyfnod o absenoldeb yn 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a yw'r lleoliad yn gallu darparu addysg sy'n addas ar gyfer y dysgwr. Gall cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau
- bod yn ystyriol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai lleoliadau addysg fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau bod cymorth i ddysgwyr yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull cyfannol.

**ch. Athrawon a staff cefnogi**

Gellir gofyn i unrhyw aelod staff o fewn y lleoliad addysg i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio weinyddu meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol. Rhaid i aelodau staff dderbyn hyfforddiant ddigonol ac addas a chyrraedd y lefel angenrheidiol o gymhwysedd cyn iddynt gymryd y cyfrifoldeb. Ni ellir gofyn i unrhyw aelod o staff weinyddu neu oruchwylio meddyginiaeth oni bai ei fod yn rhan o'u cytundeb, telerau ac amodau neu gynllun swydd a gytunwyd ar y cyd.

Yn ychwanegol at yr hyfforddiant a ddarperir i staff sydd wedi gwirfoddoli neu sydd wedi'u contractio i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod staff yn:

- deall polisïau a threfniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad addysg yn llawn
- ymwybodol o ba ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a, lle bo'n briodol, eu bod yn gyfarwydd â CIU y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gysylltu â rhieni a beth yw'r sbardunau ar gyfer cysylltu â nhw, megis pan fydd y dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod rhai gweithgareddau oherwydd eu gofynion gofal iechyd
- yn ymwybodol o arwyddion, symptomau a sbardunau cyflyrau meddygol cyffredin sy'n bygwth bywyd ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy yw'r bobl cymorth cyntaf a gofyn am eu cymorth os bydd argyfwng meddygol

- deall gweithdrefnau argyfwng y lleoliad addysg yn llawn a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng
- gofyn a gwrando ar farn dysgwyr a'u rhieni, y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth roi cymorth ar waith
- sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn teimlo'n sâl, angen cefnogaeth neu newidiadau i'w cymorth
- gwrando ar bryderon dysgwyr os ydynt yn teimlo'n sâl ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig yn achos adrodd anawsterau anadlu)
- sicrhau na chaiff dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu heithrio o weithgareddau y maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt heb reswm sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir, gan gynnwys unrhyw deithiau/ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at eu meddyginiaeth a bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn bresennol i gynorthwyo lle bo angen
- ymwybodol o faterion bwlio a lles emosiynol o ran dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a'u bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r lleoliad addysg
- yn ymwybodol y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a rhoi cymorth ychwanegol pan fo angen
- cefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u cynorthwyo gyda dal i fyny ar waith a gollwyd – gall hyn gynnwys gweithio gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol
- rhoi gwybod i rieni sut mae'r angen gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn y lleoliad addysg. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau i arferion dysgwr neu staff.

### d. Dysgwyr a rhieni

Mae'n hanfodol bod dysgwyr a rhieni yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio cymorth a rheoli anghenion gofal iechyd. Dylai diwallu anghenion yr unigolyn fod yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau a phrosesau. Mae CCUHP yn datgan y dylai dysgwyr gael mynediad at wybodaeth briodol hanfodol ar gyfer eu hiechyd a'u datblygiad a chael cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hiechyd.

Dylai dysgwyr a rhieni:

- dderbyn diweddariadau ynglŷn â materion/newidiadau gofal iechyd sy'n digwydd o fewn y lleoliad addysg
- cymryd rhan mewn creu, datblygu ac adolygu CIU (os oes un). Gall y rhiant a'r dysgwr fod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylid eu cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynghylch sut caiff anghenion gofal iechyd y dysgwr eu diwallu yn y lleoliad addysg, a dylent gyfrannu at y gwaith o ddatblygu, a chydymffurfio â'u CIU
- darparu'r lleoliad addysg â gwybodaeth ddigonol a chyfredol am anghenion gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ynglŷn â rhoi meddyginiaeth a/neu driniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Lle bo'n briodol, dylai dysgwyr gael eu hannog a'u galluogi i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain
- rhoi gwybod i'r lleoliad addysg am unrhyw newidiadau megis y math o feddyginiaeth, dos neu ddull o weinyddu
- darparu meddyginiaethau perthnasol a chyfredol, wedi'u labelu'n gywir, gyda dos a chyfarwyddiadau gweinyddu ysgrifenedig

- sicrhau bod modd cysylltu ag oedolyn a enwebwyd bob amser a bod pob ffurflen angenrheidiol wedi ei chwblhau a'i llofnodi
- rhoi gwybod i'r lleoliad addysg os oes gan eu plentyn neu os ydynt wedi cael clefyd neu gyflwr heintus tra'n bresennol.

**dd. Gwasanaeth nyrsio iechyd ysgolion GIG Cymru, sefydliadau trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill**

Mae gofal iechyd a chymorth ymarferol ar gael gan nifer o sefydliadau. Mae gan leoliadau addysg fynediad at wasanaeth cyngor iechyd. Gall cwmpas a math y gefnogaeth y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig gynnwys:

- cynnig cyngor ar ddatblygu CIU
- helpu i adnabod yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y lleoliad addysg i weithredu CIU yn llwyddiannus
- cefnogi staff i weithredu CIU dysgwr drwy gyngor a chyswllt â gweithwyr proffesiynol eraill mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector.

Gall cyngor a chymorth iechyd hefyd gael ei ddarparu gan weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol megis meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys arbenigol diabetes. Yn ogystal, gall cyrff gwirfoddol y trydydd sector ddarparu cyngor a chefnogaeth. Gall ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol yn rhagweithiol roi cymorth ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu CIU. Gallant hefyd ddarparu adnoddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys cysylltiadau fideo.

## 2.3 Creu amgylchedd ddysgu hygyrch

Dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau bod eu lleoliadau addysg yn gynhwysol ac yn hygyrch yn yr ystyr lawnaf i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol.

- **Mynediad ffisegol i adeiladau'r lleoliad addysg**

  Rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth hygyrchedd ysgrifenedig ar gyfer pob ysgol maent yn gyfrifol amdani o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[13]. Disgwylir i unrhyw strategaeth o'r fath fynd i'r afael â:

  'gwella amgylcheddau ffisegol ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y mae dysgwyr anabl yn gallu manteisio ar addysg a manteision, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion' (Atodlen 10, Deddf Cydraddoldeb 2010[14]).

  Rhaid i'r strategaeth hon ymwneud â chyfnod rhagnodedig, rhaid ymgynghori arni, rhaid ei bod ar gael i'w harchwilio a'i hadolygu'n barhaus. Yn yr un modd, rhaid i ysgolion unigol gynnal cynllunio hygyrchedd ac maent o dan ddyletswydd i baratoi cynllun hygyrchedd yn dilyn yr un egwyddorion â'r strategaethau a baratowyd gan yr awdurdodau lleol.

[13] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

- **Addasiadau rhesymol – cymhorthion neu wasanaethau ategol**

  Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar sefydliadau dysgu i wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer dysgwyr sy'n anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf. Mewn perthynas â'r dysgwyr hyn, rhaid darparu cymhorthion neu wasanaethau ategol (gyda'r nifer priodol o staff hyfforddedig)

- **Teithiau dydd ac ymweliadau preswyl**

  Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y lleoliad addysg yn cefnogi'n weithredol bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau. Rhaid i gyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol (gweler 'Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol' ar dudalen 29) i wneud addasiadau rhesymol i deithiau ac ymweliadau preswyl gan sicrhau cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr.

  Dylai staff fod yn ymwybodol o sut y gall anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar gyfranogiad, a cheisio darparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr[15]. Dylai staff ystyried sut mae darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti os yw'n angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle (yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a chan barchu hawl y dysgwr i breifatrwydd). Gall hyn gynnwys gwybodaeth am anghenion gofal iechyd y dysgwyr, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth, meddyginiaeth neu offer ychwanegol sydd eu hangen.

- **Rhyngweithio cymdeithasol**

  Dylai cyrff llywodraethu sicrhau y caiff cyfranogiad dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd ei ystyried yn ddigonol mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig a distrwythur, fel yn ystod egwyl, clwb brecwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl-oriau ac ymweliadau preswyl.

  Dylai'r lleoliad addysg wneud yr holl staff yn ymwybodol o'r rhwystrau cymdeithasol y gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu profi a sut y gall hyn arwain at fwlio ac allgáu cymdeithasol. Mae angen ymagwedd ragweithiol i gael gwared ar unrhyw rwystrau.

- **Ymarfer a gweithgaredd corfforol**

  Dylai'r lleoliad addysg ddeall yn llawn pa mor bwysig yw bod pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a dylai staff wneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill i'w gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl-oriau a chwaraeon tîm.

  Dylai staff fod yn gwbl ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr a sbardunau posibl. Dylent wybod sut i ymateb yn briodol ac yn brydlon os ydynt yn ymwybodol

[15] Gan ddibynnu ar amgylchiadau, gall y dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fod yn berthnasol.

bod dysgwr yn teimlo'n sâl. Dylent ofyn am arweiniad bob amser wrth ystyried sut y gallai cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau eraill effeithio ar ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

Dylid osgoi 'darpariaethau arbennig' ar wahân ar gyfer gweithgareddau penodol, gyda phwyslais yn lle hynny ar weithgareddau sydd wedi'u gwneud yn hygyrch i bawb. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cael cyngor gan weithwyr iechyd ac addysg gorfforol proffesiynol a'r dysgwr.

Dylai staff hefyd ddeall y gall hi fod yn briodol i rai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael meddyginiaeth neu fwyd gyda nhw yn ystod gweithgarwch corfforol; dylai dysgwyr o'r fath gael eu hannog i gymryd y feddyginiaeth neu fwyd pan fo'i angen.

- **Rheoli bwyd**
  Lle caiff bwyd ei ddarparu gan neu drwy'r lleoliad addysg, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i anghenion diet dysgwyr, e.e. y rhai sydd â diabetes, clefyd seliag, alergeddau ac anoddefiadau.

  Lle bo angen, dylai lleoliadau addysg ddarparu bwydlenni i rieni a dysgwyr o flaen llaw, gyda rhestrau cyflawn o gynhwysion a gwybodaeth maeth. Rhaid nodi glwten ac anoddefiadau neu alergenau eraill yn glir. Bydd darparu gwybodaeth yn helpu i hwyluso gweithio ar y cyd rhwng rhieni a thimau arlwyo. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd angen cyfrif carbohydrad.

  Dylid rhoi ystyriaeth i argaeledd byrbrydau. Dylid bob amser cynnig opsiynau heb siwgr na glwten. Gan fod rhai cyflyrau angen lefel uchel o galorïau, dylai bod modd dewis bwydydd a diodydd sy'n glwcos-gyfoethog.

  Rhaid i fwyd a ddarperir ar gyfer teithiau adlewyrchu anghenion dietegol a thriniaeth y dysgwyr sy'n cymryd rhan. Dylai bwyd a ddarperir ar gyfer byrbrydau mewn lleoliadau ystafell ddosbarth hefyd gymryd anghenion dietegol a thriniaeth y dysgwyr hyn i ystyriaeth. Er bod polisïau ysgol iach a 'dim melysion' yn cael eu cydnabod fel rhai pwysig, efallai y bydd angen i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd gael eu heithrio o'r polisïau hyn. Ni ddylai dysgwyr sydd angen bwyta neu yfed fel rhan o'u cyflwr gael eu gwahardd o'r ystafell ddosbarth na'u neilltuo.

- **Asesiadau risg**
  Dylai staff fod yn glir pryd mae angen asesiad risg a bod yn ymwybodol o'r systemau asesu risg sydd ar waith. Dylent ddechrau â rhagosodiad o gynnwys a dylai fod proses o geisio addasiadau neu weithgareddau amgen yn hytrach na darpariaeth ar wahân wedi'i gynnwys yn rhan ohonynt.

Yn ogystal, mae dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i baratoi a gweithredu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd[16]. Mae'r strategaethau a chynlluniau hyn yn delio â materion sy'n ymwneud â chynyddu cyfranogiad gan ddysgwyr anabl. Fe'u disgrifir yn fanylach yn 'Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol' ar dudalen 29.

## 2.4 Rhannu gwybodaeth

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau anghenion iechyd, yn bolisïau ehangach y lleoliad addysg a CIU, yn cael eu cefnogi gan gyfathrebu clir gyda staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau eu cyfathrebu'n llawn. Mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfredol. Mae'n rhaid i bob techneg rhannu gwybodaeth megis hysbysfwrdd staff a mewnrwyd ysgol gael eu cytuno gan y dysgwr a'r rhiant cyn cael ei ddefnyddio, er mwyn diogelu cyfrinachedd.

**Dylai athrawon, athrawon llenwi a staff cefnogol (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)** gael mynediad at y wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd o sefyllfa argyfwng yn codi. Bydd sut y caiff hyn ei wneud yn dibynnu ar fath a maint y lleoliad a gallai gynnwys:

- lle bo'n addas, ac yn dilyn caniatâd priodol, hysbysfwrdd mewn ystafell staff a ddefnyddir i ddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, staff cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau brys, ac ati. Dylid nodi nad yw pob aelod staff yn defnyddio'u hystafell staff, y gallai maint rhai o'r lleoliadau addysgol wneud y math hwn o rannu gwybodaeth yn anymarferol, a bod rhaid ystyried hawl y dysgwr i breifatrwydd bob amser
- ardal mewnrwyd ddiogel a chyfarfodydd staff y lleoliad addysg yn cael eu defnyddio i helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr y mae ganddynt gysylltiad â nhw neu y gallent fod ganddynt gysylltiad â nhw.

Dylai **rhieni a dysgwyr** fod yn bartneriaid gweithredol, ac er mwyn cyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg wneud rhieni'n gwbl ymwybodol o'r gofal a gaiff eu plant. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd gael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau nhw. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg:

- wneud polisïau anghenion gofal iechyd ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch, ar-lein ac ar ffurf copi caled
- darparu copi o'r polisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwr/rhieni. Dylai hwn nodi'r math o gyrff ac unigolion y gellir rhannu gwybodaeth feddygol y dysgwr â nhw
- gofyn i rieni lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n rhoi manylion clir y cyrff, unigolion a dulliau a fydd yn gyfrwng rhannu gwybodaeth feddygol eu dysgwr. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a dylai'r dysgwr fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau.

[16] Atodiad 10 Deddf Cydraddoldeb 2010. Am arweiniad ar y dyletswyddau statudol tebyg blaenorol: gov.wales/dcells/publications/publications/circularsindex/04/disabledaccess/nafwc1504-w.pdf?lang=cy

Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr o ba wybodaeth sydd wedi cael ei rhannu â phwy a pham, i'r dysgwr/rhiant allu ei weld ar gais

- ystyried cynnwys dolen i'r polisïau anghenion gofal iechyd mewn cyfathrebiadau perthnasol a anfonir at rieni, ac o fewn CIU y dysgwr
- cynnwys cynghorau myfyrwyr, 'ysgolion iach' a grwpiau eraill i ddysgwyr yn natblygiad trefniadau gofal iechyd y lleoliad, lle y bo'n briodol
- ystyried sut y gall grwpiau o ffrindiau a chyfoedion gynorthwyo dysgwyr, e.e. gellid dysgu'r sbardunau neu arwyddion problem dysgwr iddynt, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng a phwy i ofyn am gymorth. Dylai'r lleoliad addysg drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni yn gyntaf a phenderfynu a ellir rhannu gwybodaeth.

## 2.5 Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

Dylai'r lleoliad addysg greu gweithdrefnau sy'n nodi rolau/cyfrifoldebau pob parti sy'n rhan o adnabod, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Dylai'r dogfennau canlynol gael eu casglu a'u cynnal, lle bo hynny'n briodol.

1. Manylion cyswllt y gwasanaethau brys
2. Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
3. Cytundeb pennaeth y lleoliad addysgol i weinyddu meddyginiaeth
4. Cofnod o feddyginiaeth gaiff ei storio a'i gweinyddu i ddysgwr unigol
5. Cofnod o feddyginiaethau a weinyddwyd i bob dysgwr yn ôl dyddiad
6. Cais i ddysgwr weinyddu meddyginiaeth eu hunain
7. Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau
8. Adroddiad digwyddiad meddyginiaeth.

Dylai cofnodion newydd gael eu cwblhau pan fydd newidiadau i feddyginiaeth neu ddos. Dylai'r lleoliad dysgu sicrhau bod yr hen ffurflenni wedi'u marcio'n glir fel rhai na sydd bellach yn berthnasol a'u storio yn unol â'u polisi cadw gwybodaeth. Gellir gweld y ffurflenni/templedi uchod yn 'Atodiad 2: Templedi ffurflenni' ar dudalen 33. Mae fersiynau electronig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2.6 Storio, mynediad at a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi'r lleoliad addysg yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau. Bydd gweithdrefnau storio, mynediad a gweinyddu bob amser yn gyd-destunol i'r lleoliad addysg a gofynion y dysgwr. Fodd bynnag, dylai'r egwyddorion cyffredinol canlynol gael eu hadlewyrchu.

**Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau**
Ni ddylai sefydliadau addysg storio meddyginiaeth dros ben. Dylid gofyn i rieni ddarparu cyflenwadau priodol o feddyginiaeth. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu ag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dos ac amledd, a'r dyddiad dod i ben. Dylai lleoliadau addysg ond derbyn meddyginiaethau a dyfeisiau ar bresgripsiwn sydd:

- â dyddiad addas

- â'u cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- wedi'u cyflenwi â chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio
- yn eu cynhwysydd/pecynnu gwreiddiol fel a weinyddir gan fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael yn gyffredinol drwy gyfrwng pin inswlin neu bwmp).

Lle caiff meddyginiaeth nid-drwy-bresgripsiwn ei gadw gan y lleoliad addysg, e.e. hylif paracetamol, dylai:

- fod â dyddiad addas
- fod y cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- fod wedi'i labelu ag enw'r dysgwr
- wedi'i gyflenwi â chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio – gall hyn fod gan y rhiant
- fod yn ei gynhwysydd/pecynnu gwreiddiol.

**Storio, mynediad a gwaredu**
Er y dylid storio pob meddyginiaeth yn ddiogel, bydd math a defnydd y feddyginiaeth yn pennu sut mae hyn yn digwydd. Mae'n bwysig i ddysgwyr wybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arno.

- **Rheweiddio**
  Mae angen oergell ar rai meddyginiaethau. Bydd angen monitro tymheredd yr oergell yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r gofynion storio. Gall meddyginiaethau gael eu cadw mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylai fod mewn cynhwysydd aerglos ac wedi'i labelu'n glir. Dylid ystyried oergell feddygol y gellir ei chloi os oes angen storio llawer o feddyginiaeth.

- **Meddyginiaeth argyfwng**
  Rhaid i feddyginiaeth argyfwng fod ar gael yn rhwydd i ddysgwyr sydd ei angen bob amser yn ystod y dydd neu mewn gweithgareddau oddi ar y safle. Dylai meddyginiaethau a dyfeisiau fel anadlwyr asthma, mesuryddion profi glwcos yn y gwaed a hunan-chwistrellwyr adrenalin (pen) fod ar gael yn rhwydd i ddysgwyr ac nid o dan glo. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'w ystyried pan y tu allan i adeilad y lleoliad addysg, e.e. ar deithiau. Os yw'r meddyginiaeth frys yn gyffur a reolir, dylid ei gadw mor ddiogel â phosibl er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod tra hefyd yn caniatáu mynediad cyflym os gallai hyn fod yn angenrheidiol mewn argyfwng. Er enghraifft, ni ddylai allweddi gael eu dal yn bersonol gan aelod o staff. Gall dysgwr sydd wedi cael cyffur a reolir drwy bresgripsiwn ei feddu'n gyfreithiol, os ydynt yn gymwys i wneud hynny, ac ni ddylent ei drosglwyddo i ddysgwr arall neu unrhyw un arall sydd heb awdurdod. Gall monitro fod yn angenrheidiol. Pan fydd staff yn rhoi meddyginiaeth frys i ddysgwr, dylid cofnodi hyn.

- **Meddyginiaeth di-argyfwng**
  Dylai pob meddyginiaeth di-argyfwng gael ei chadw mewn lle diogel gyda rheolaethau tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur a reolir, mae mesurau a rheolaethau diogelwch ychwanegol yn ddoeth.

- **Gwaredu meddyginiaeth**
  Pan nad oes mo'u hangen mwyach, dylai meddyginiaethau gael eu dychwelyd i'r rhieni i drefnu cael gwared arnynt yn ddiogel. Rhaid defnyddio *Sharpboxes* bob amser ar gyfer cael gwared â nodwyddau ac offer miniog eraill a'u gwaredu'n briodol.

**Gweinyddu meddyginiaeth**

- Lle mae'r dysgwr yn iau nag 16 oed, mae rhoi cymorth neu weinyddu meddyginiaethau a ragnodwyd neu feddyginiaethau sydd heb eu rhagnodi'n gofyn am ganiatâd ysgrifenedig rhieni, oni bai y caiff cymhwysedd Gillick ei gofnodi. Dylid cofnodi gweinyddu pob meddyginiaeth.
- Lle caiff meddyginiaeth ei rhagnodi i'w cymryd mewn amleddau sy'n caniatáu i'r cwrs dyddiol o feddyginiaeth gael ei weinyddu yn y cartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, e.e. cyn ac ar ôl ysgol a gyda'r hwyr. Bydd yna achosion lle nad yw hyn yn briodol.
- Dylai dysgwyr o dan 16 oed fyth dderbyn aspirin na'i ddeilliadau oni ragnodir iddynt.
- Oni bai bod cynllun y cytunwyd arno i'r dysgwr weinyddu meddyginiaeth i'w hunan (16 oed a throsodd neu gymhwysedd Gillick), dylid gweinyddu pob meddyginiaeth gan aelod o staff. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen iddo gael ei oruchwylio yn unol â'r CIU.
- Dylai meddyginiaeth gael ei gweinyddu gan staff sydd wedi cael hyfforddiant addas yn unig. Dylai symudiad a lleoliad y staff hyfforddedig hyn bob amser fod ar y cyd â'r dysgwyr y maent yn eu cefnogi.
- Dylai staff wirio'r dos uchaf a maint ac amser unrhyw ddos blaenorol a weinyddwyd.
- Gall gweinyddu rhai gweithdrefnau meddygol ofyn am weinyddu gan oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr, ac efallai y bydd angen ail oedolyn yn dyst. Rhaid ystyried barn a theimladau'r dysgwr ynglŷn â nifer a rhyw y rhai sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal personol. Nid oes unrhyw ofyniad o dan y gyfraith bod mwy nag un person yn cynorthwyo[17]. Dylai hyn gael ei gytuno a'i adlewyrchu yn y CIU a'r asesiad risg.
- Dylai'r lleoliad addysg gael polisi gofal personol[18]. Dylid ei ddilyn, oni bai bod trefniadau eraill wedi'u cytuno, a'u cofnodi yn CIU y dysgwr.
- Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn eu gweithdrefnau diffiniedig, gan hysbysu rhieni cyn gynted â phosibl. Os yw dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid rhoi gwybod i'w rieni cyn gynted â phosibl. Dylai'r lleoliad addysg ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â'r rhieni yn syth, mae angen i staff ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.
- Dylai staff sy'n ymwneud â gweinyddu meddyginiaeth fod yn gyfarwydd â sut mae dysgwyr yn cydsynio i driniaeth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn gan Lywodraeth

[17] gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf

[18] Gellir diffinio gofal personol fel unrhyw ofal sy'n golygu ymolchi neu gyflawni gweithdrefn i rannau personol y corff y mae'r rhan fwyaf o bobl fel arfer yn eu gwneud eu hunain, ond nad yw rhai dysgwyr yn gallu eu gwneud oherwydd eu hoed ifanc, anawsterau corfforol neu anghenion arbennig eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys gofal sy'n gysylltiedig ag ymataliaeth a rheolaeth mislif yn ogystal â thasgau dyddiol megis cymorth i ymolchi, i fynd i'r toiled neu wisgo. Mae hefyd yn cynnwys goruchwylio dysgwyr wrth iddynt wneud hunan-ofal personol.

Cymru i'w gweld yn *Caniatâd Cleifion i Archwiliad a Thriniaeth – Canllawiau Diwygiedig* (Y GIG, 2008)[19].

- Dylai pob aelod staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle fod yn ymwybodol o ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylent dderbyn y wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod staff yn gallu hwyluso profiad cyfartal i'r dysgwr. Gall y wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth angenrheidiol ychwanegol arall y mae'r dysgwr ei angen, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer.

## 2.7 Gweithdrefnau argyfwng

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi yn ei le ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd argyfwng. Dylai staff wybod pwy sy'n gyfrifol am y polisi, pwy sydd wedi'u henwebu'n bobl cymorth cyntaf a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd sydd angen cymorth brys, dylid galw 999 ar unwaith. Dylai lleoliad cofnodion gofal iechyd y dysgwr a manylion cyswllt brys fod yn hysbys i staff.

Pan fydd gan ddysgwr CIU, dylai hwn ddiffinio'n glir beth yw argyfwng ac egluro beth i'w wneud. Dylai staff fod yn ymwybodol o symptomau a gweithdrefnau argyfwng.

Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg hefyd wybod beth i'w wneud mewn argyfwng mewn termau cyffredinol, megis rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith.
Os oes angen cymryd dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr nes bod rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys eu hebrwng mewn ambiwlans i'r ysbyty. Dylai fod gan yr aelod staff fanylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

## 2.8 Hyfforddiant

Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu sydd o dan gontract i gefnogi'r rheiny sydd ag anghenion gofal iechyd yn derbyn hyfforddiant priodol. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod eu polisïau'n nodi'n glir sut y bydd nifer ddigonol o'r staff hyn yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.

Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, dylid cydnabod nad oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol ar gyfer llawer o ymyriadau a rôl staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Gall CIU adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant benodol. Gall yr hyfforddiant hwn hefyd ymwneud â defnydd cymhorthion fel cymhorthion clyw (dylid dangos i staff sut mae newid batris) ac amryw dechnolegau addasol. Os yw'r rhain wedi'u cychwyn gan weithwyr iechyd proffesiynol, gellir gofyn iddynt ddarparu cyngor

[19] Noder y caiff y cylchlythyr hwn ei adolygu yng ngwanwyn 2017. Gellir gweld y fersiwn gyfredol yn www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=465&pid=11930

addas ar gyfer lleoliadau addysg yn ogystal â dysgwyr a theuluoedd.

Dylai hyfforddiant a ddarperir fod yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, yn hyderus yn eu gallu i gefnogi dysgwyr a chyflawni gofynion CIU. Yn hanfodol, dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys mewnbwn gan y dysgwr a'r rhieni, sy'n aml yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwybodaeth am sut y gellir diwallu anghenion. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu'n llwyr ar rieni i ddarparu hyfforddiant am anghenion gofal iechyd eu plentyn.

Os oes gan ddysgwr anghenion cymhleth, efallai y bydd angen mewnbwn gan wasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol, fydd yn gallu rhoi cyngor a chyfeirio at hyfforddiant a chymorth pellach.

Gall yr holl staff, p'un a ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ai peidio, ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Felly, mae'n ddoeth bod gan yr holl staff ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin i sicrhau adnabod symptomau a deall ble i geisio cymorth priodol.

Dylai polisïau gynnwys gweithdrefn ar sut i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin, polisi anghenion gofal iechyd a rolau staff wrth wneud trefniadau. Dylai staff newydd a dros dro gael eu gwneud yn arbennig o ymwybodol o'r mesurau ataliol ac argyfwng sydd mewn lle fel y gall staff adnabod yr angen am ymyrraeth ac ymateb yn gyflym.
Os nad yw'r staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, dylai'r CIU nodi trefniadau amgen. Mae hefyd angen mynd i'r afael â hyn wrth asesu risg a chynllunio gweithgareddau oddi ar y safle.

## 2.9 Arholiadau cymhwyster ac asesiadau cwricwlwm cenedlaethol

Mae cyswllt effeithlon ac effeithiol yn hanfodol pan fydd dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn wynebu asesiadau, gan gynnwys rheiny sy'n sefyll arholiadau mewn ysbyty neu gartref. Gall yr elfen gwaith cwrs helpu dysgwyr i gadw i fyny â'u cyfoedion. Efallai y bydd yr athrawon cartref ac ysbyty yn gallu trefnu i ganolbwyntio ar yr elfen hon i leihau colli dysgu pan nad ydynt yn gallu bod yn bresennol. Mae cyswllt rhwng y lleoliad addysg a'r athro ysbyty neu'r athro cartref yn bwysig iawn, yn enwedig lle mae'r dysgwr yn symud o leoliad addysg neu gartref i'r ysbyty yn rheolaidd.

Gall cyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu parhaol neu hirdymor neu anableddau a salwch dros dro, sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus megis TGAU neu lefel A. Dylid cyflwyno cais am drefniadau arbennig gan ysgolion i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosibl. Mae canllawiau llawn ar yr amrywiaeth o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau yng nghylchlythyron y Cyd-gyngor Cymwysterau *Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr*

*ag anableddau ac anawsterau dysgu* (2016)[20] ac *Arweiniad i'r broses ystyriaeth arbennig* (2016)[21], sydd ill dau ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau[22].

Dylid seilio addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar arfer ystafell ddosbarth arferol ar gyfer anghenion penodol. Disgwylir i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol i gefnogi dysgwyr. Rhoddir arweiniad yn y llawlyfr cyfredol *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – llawlyfr gweinyddu profion*[23].

## 2.10 Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

Mae'r adran hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol na fyddant efallai, oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, yn mynychu lleoliad addysg prif ffrwd am unrhyw gyfnod. Gallai'r cymorth a gânt yn ystod pwl o salwch fod yn yr ysbyty, mewn uned cyfeirio disgyblion neu yn y cartref. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd (adran 19(1) ac 19(4) Deddf Addysg 1996) i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg sy'n addas ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc o oed ysgol gorfodol.

Dylid adnabod anghenion addysgol dysgwr sydd ddim yn gallu mynychu eu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd a dylent dderbyn cymorth addysgol yn gyflym fel eu bod yn parhau i gael eu darparu ag addysg addas. Mae hyn yn golygu addysg sy'n addas i oedran, gallu, dawn y dysgwr ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) efallai fydd ganddynt. Dylai natur y ddarpariaeth fod yn ymatebol, gan adlewyrchu anghenion statws iechyd a all fod yn newidiol.

Mae'r awdurdod lleol yn annhebygol o ddarparu addysg yn y cartref ar gyfer dysgwyr sy'n sâl am gyfnodau byr iawn o amser, gan y dylai eu lleoliad addysg allu darparu cymorth priodol. Fodd bynnag, dylent ystyried y ffordd y mae'r absenoldeb yn debygol o effeithio ar y dysgwr wrth iddynt ddychwelyd i addysg. Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o bara am lai na 15 diwrnod ysgol) dylai ysgol y dysgwr ddarparu gwaith i'w gwblhau yn y cartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatâu, a chefnogi'r dysgwr i ddal i fyny ar ôl dychwelyd. Dylai'r awdurdod lleol fod yn barod i wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn achosion lle mae'n amlwg bod y dysgwr yn debygol o fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod sylweddol, e.e. mwy na 15 diwrnod ysgol yn olynol neu'n ystod blwyddyn academaidd. Fodd bynnag, efallai y bydd dal angen i'r awdurdod lleol wneud trefniadau os rhagwelir absenoldeb byrrach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Lle caiff absenoldebau eu rhagweld neu eu bod yn hysbys ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol alluogi i'r gwasanaeth EOTAS gael ei ddarparu o ddechrau'r absenoldeb.

---

20 www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/access-arrangements-and-reasonable-adjustments-2016-2017

21 www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/a-guide-to-the-special-consideration-process-2016-2017

22 www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/ http:///

23 learning.gov.wales/resources/browse-all/national-reading-and-numeracy-tests-administration-handbook/?skip=1&lang=cy

Dylai'r awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnod o addysg a ddarperir yn yr ysbyty wrth ystyried a oes angen iddo ddarparu EOTAS i ddysgwr a beth i'w darparu. Os bydd y dysgwr wedi bod yn yr ysbyty ac wedi derbyn hyfforddiant yno, gall eu cynnydd a'u profiadau cwricwlaidd fod yn wahanol i rai eu cyfoedion yn yr ysgol. Er hynny, dylid sicrhau cymaint o barhad ag y bo modd. Dylai'r awdurdod lleol ddarparu cymaint o wersi ag y mae cyflwr y dysgwr yn ei ganiatáu, ac fel sy'n fuddiol, gan ystyried beth sy'n addas ar gyfer y dysgwr. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr sydd ar gwrs sy'n arwain at gymwysterau.

Dylai'r awdurdod lleol gael polisi ysgrifenedig ynghylch EOTAS ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai polisïau gynnwys trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd y mae'n cael ei staffio, amseriad y ddarpariaeth, a pherson a enwir y dylai rhieni, athrawon ysbyty ac eraill gysylltu â nhw. Dylai'r polisi wneud cysylltiadau â gwasanaethau cysylltiedig yn yr awdurdod lleol megis y rhai ar gyfer AAA a gwasanaethau cefnogi eraill yr awdurdod lleol, seicolegwyr addysg, y Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) ac unedau cyfeirio disgyblion.

Dylai monitro a gwerthuso EOTAS fod yn elfen allweddol yn strategaethau'r awdurdod lleol. Dylai geisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu mabwysiadu, bod lefelau addysg o safon ddigonol a bod darpariaeth yn cynrychioli gwerth da am arian.

Mae cydweithredu rhwng staff addysg, iechyd a staff gweinyddol yn yr ysbyty yn hanfodol. Sicrhau'r budd mwyaf posibl ar gyfer addysg ac iechyd y plentyn neu berson ifanc ddylai'r nod fod, a ddylai gynnwys creu awyrgylch sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.

Mae cyswllt agos rhwng athrawon cartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y dysgwyr. Fodd bynnag, gall rhieni hefyd fod yn gyswllt gwerthfawr.

Gall dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai'r cynllun gofal ysgrifenedig gael ei integreiddio i mewn i unrhyw CIU.

## 2.11 Dysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol

Dylai awdurdodau lleol drefnu parhad addysg dysgwyr dros 16 oed, ond llai na 18 mlwydd oed, lle oherwydd salwch, mae angen i'r dysgwr astudio i gwblhau eu cymwysterau. Lle mae gan y dysgwr ddatganiad AAA, mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am y dysgwr nes eu bod yn 19 oed. Fodd bynnag, bydd achlysuron lle byddai cwblhau naturiol blwyddyn academaidd neu gwblhau cwrs penodol yn cymryd dysgwr sydd â datganiad y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 19 oed – gweler *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (2004), adran 9:61[24].

[24] gov.wales/docs/dcells/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

## 2.12 Integreiddio

Mae gan leoliadau addysg rôl allweddol i'w chwarae yn integreiddio dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn llwyddiannus ar ôl diagnosis neu ailintegreiddio. Dylai lleoliadau fod yn rhagweithiol wrth weithio gyda'r holl asiantaethau, gan gynnwys dysgwyr eraill wrth gefnogi pontio. Dylai staff gael eu hyfforddi mewn modd amserol i gynorthwyo dychweliad y dysgwr. Dylai'r gefnogaeth gael ei hystyried gan bartïon allweddol, gan gynnwys y rhiant a'r dysgwr a dylid eu hadlewyrchu yn y CIU.

**Rhyddhau o'r ysbyty**
Pan fydd dysgwr yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, dylid darparu gwybodaeth briodol i rieni, a allai wedyn gael ei rannu gyda'r lleoliad addysg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y dychwelyd i'r lleoliad addysg yn esmwyth. Dylai'r lleoliad addysg gysylltu â'r gwasanaeth addysg yn y cartref neu wasanaeth addysg yr ysbyty fel y bo'n briodol. Dylai'r rhai sy'n gweithio'n agos gyda'r dysgwr fod ar gael i roi cyngor yn ôl yr angen ar ffyrdd priodol i gefnogi'r dysgwr orau. Lle mae ysbytai'n rhoi rhybudd ymlaen llaw o ryddhau, mae'n ddefnyddiol os yw rhieni yn cyfathrebu hyn cyn gynted ag y bo modd, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am gyflawniadau y dysgwr a chynnydd addysgol yn yr ysbyty.

Gall ysbytai sydd â nyrs gyswllt gynnig cyngor i baratoi lleoliad addysg y dysgwr ar sut orau i reoli eu dychwelyd. Gall hyn alluogi athrawon sydd heb brofiad o ddelio â chyflwr neu glefyd penodol i ymdrin ag ailintegreiddio'n effeithiol. Gall hefyd hyrwyddo dealltwriaeth y gall rhai mathau o salwch neu driniaethau greu problemau ymddygiad neu anawsterau gwybyddol. Gall cyswllt gyda nyrs sy'n arbenigo yng nghyflwr penodol y dysgwr hefyd fod o fudd yn dilyn unrhyw ryddhau o'r ysbyty.

**Yn dilyn integreiddio**
Mae'n ddefnyddiol i'r awdurdod lleol benderfynu ar effeithiolrwydd drwy ddilyn i fyny gyda'r dysgwr ar ôl ail-integreiddio. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno defnyddio adborth o'r fath wrth werthuso eu polisïau a'u cefnogaeth. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ailintegreiddio dysgwr neu berson ifanc yn lleol - nid yn unig gan asiantaethau iechyd a chyhoeddus eraill, ond hefyd sefydliadau preifat a gwirfoddol.

Mae'n bwysig nodi bod gwasanaeth allgymorth parhaus ar ôl rhyddhau weithiau'n angenrheidiol. Dylai athrawon ysbyty a staff addysgu sy'n darparu hyfforddiant yn y cartref os yw'n berthnasol, fod yn ymwybodol o'u rôl wrth ailintegreiddio dysgwyr cyn gynted ag y bo modd, a dylai awdurdodau lleol sicrhau bod swyddogion lles addysg yn deall eu rôl mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

## 2.13 Cludiant i'r ysgol

Mae dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol, penaethiaid a chyrff llywodraethu mewn perthynas â dysgwyr yn teithio i'r man lle y maent yn derbyn eu haddysg neu hyfforddiant[25]. Er enghraifft, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwr, neu ddarparu

[25] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

hebryngwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ar gyfer teithiau o'r fath i hwyluso presenoldeb dysgwr. Nodir gwybodaeth ac arweiniad ar hyn yn y ddogfen *Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol* (2014)[26].

## 2.14 Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod yr holl bolisïau, trefniadau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y lleoliad addysg. Efallai y bydd CIU angen adolygiadau aml yn dibynnu ar y gofal iechyd – dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys, lle bo'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd a chyrff perthnasol eraill.

## 2.15 Trefniadau yswiriant

Dylai cyrff llywodraethu lleoliadau addysg a gynhelir sicrhau bod lefel briodol o yswiriant yn ei le i gwmpasu gweithgareddau'r lleoliad wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu'n briodol lefel y risg. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

## 2.16 Gweithdrefn cwynion

Os na fydd y dysgwr neu'r rhiant yn fodlon gyda threfniadau gofal iechyd y lleoliad addysg, mae ganddynt hawl i wneud cwyn. Rhaid i'r corff llywodraethu gyhoeddi ei drefn gwyno ffurfiol[27], gan gynnwys sut gall cwynion gael eu dwysáu o athro i bennaeth, yna i'r corff llywodraethu, ac yna i'r awdurdod lleol. Dylai'r weithdrefn gwynion hefyd gael ei chrynhoi yn eu polisi ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Os bydd y gwyn yn gysylltiedig â Deddf Cydraddoldeb 2010/anabledd, yna gellir ystyried herio Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru (TAAAC).

[26] Ar gael yn gov.wales/docs/dcells/publications/140616-ltog-cy-v2.pdf

[27] Adran 29 Deddf Addysg 2002 yn www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/section/29

# 3. Cynlluniau gofal iechyd unigol (CIU)

## 3.1 Cyflwyniad

Mae CIU yn nodi pa gymorth sydd ei angen gan ddysgwr. Nid oes angen iddynt fod yn hir nac yn gymhleth. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu polisi anghenion gofal iechyd yn cynnwys gwybodaeth ar bwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygiad y CIU. Mae CIU yn hanfodol lle mae anghenion gofal iechyd yn gymhleth, yn anwadal, hirdymor neu lle mae risg uchel y bydd angen ymyriad brys. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd angen CIU a dylid cael proses ar waith i benderfynu pa ymyriadau sydd fwyaf priodol. Mae'r diagram canlynol yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a oes angen CIU.

**Adnabod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**

- Adnabod dysgwyr o'r ffurflen ymrestru neu lwybr arall.
- Rhiant neu ddysgwr yn hysbysu'r lleoliad addysg o angen gofal iechyd.
- Cynnal trafodaethau pontio mewn da bryd, e.e. wyth wythnos cyn naill ai diwedd y tymor neu symud i leoliad addysg newydd.

**Casglu gwybodaeth**

- Os yw'n bosibl y bydd angen CIU, dylai'r lleoliad addysg drafod hyn gyda'r rhiant a'r dysgwr.

**Penderfynu a oes angen CIU**

- Dylai'r lleoliad addysg drefnu cyfarfod gyda staff priodol, y rhieni, y dysgwr a chlinigwyr priodol i benderfynu a yw anghenion gofal iechyd y dysgwr angen CIU, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os na ellir cael consensws, dylai'r pennaeth gymryd y penderfyniad terfynol, a gellir ei herio drwy'r drefn gwyno.

**Os oes angen CIU**

- Dylai'r lleoliad addysg, o dan arweiniad y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol, y rhieni a'r dysgwr, ddatblygu'r CIU mewn partneriaeth.
- Dylai'r lleoliad addysg adnabod staff priodol i gefnogi'r dysgwr, gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddi a ffynhonnell yr hyfforddiant, a gweithredu hyfforddiant.
- Dylai'r lleoliad addysg ddosbarthu'r CIU i bob unigolyn priodol.
- Dylai'r lleoliad addysg osod dyddiad adolygu priodol a diffinio unrhyw sbardun arall ar gyfer adolygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig yn ymwneud â salwch tymor byr megis y rhai sydd angen cwrs o wrthfiotigau, efallai na fydd CIU manwl yn angenrheidiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall fod yn ddigonol i gofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, yr amser a weinyddir ac unrhyw sgil effeithiau posibl. Dylid cadarnhau'r gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig rhwng y dysgwr (lle bo'n briodol), y rhieni a'r lleoliad addysg.

Fodd bynnag, pan fydd gan ddysgwr anghenion gofal iechyd ysbeidiol neu barhaus, yna efallai y bydd angen CIU. Os yw'r anghenion hyn yn gymhleth a bod y dysgwr yn newid lleoliadau, yna dylid dechrau paratoi'n gynnar er mwyn helpu i sicrhau bod y CIU yn ei le ar ddechrau'r tymor newydd.

## 3.2 Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CIU

Nid oes angen i CIU fod yn gymhleth ond dylent esbonio sut y gall anghenion y dysgwr gael eu bodloni. Dylai CIU fod yn hygyrch i bawb sydd angen cyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob cynllun gynnwys gwybodaeth a chamau allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Efallai y bydd datblygiad CIU manwl yn cynnwys:

- y dysgwr
- y rhieni
- mewnbwn neu wybodaeth gan leoliad addysg blaenorol
- gweithwyr proffesiynol gofal iechyd priodol
- y pennaeth a/neu'r unigolyn dirprwyedig sy'n gyfrifol am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- athrawon a staff cefnogi, gan gynnwys staff arlwyo
- unrhyw unigolion â rolau perthnasol megis cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles, a chydlynydd anghenion addysgol arbennig (SENCo).

Er y dylai'r cynllun gael ei deilwra i anghenion pob dysgwr unigol, gall gynnwys:

- manylion am yr angen gofal iechyd a disgrifiad o symptomau
- gofynion penodol megis gofynion dietegol, rhagofalon cyn-weithgaredd (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
- gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgil-effeithiau, gofynion storio, trefniadau ar gyfer gweinyddu
- datganiad o'r effaith (a gynhyrchwyd ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ar sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu driniaeth yn effeithio ar eu dysgu a pha gamau sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn
- camau gweithredu gofynnol
- protocolau argyfwng a manylion cyswllt
- y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
- dyddiadau adolygu a sbardunau adolygu
- rolau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt i rieni, staff sy'n gyfrifol am weinyddu/goruchwylio meddyginiaeth a threfniadau ar gyfer cyflenwi yn eu habsenoldeb
- materion rhannu gwybodaeth o ran caniatâd/preifatrwydd/sensitifrwydd

- anghenion hyfforddi staff, fel gyda gwaith gweinyddol gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau addasol
- cadw cofnodion – sut y bydd yn cael ei wneud, a pha wybodaeth gaiff ei chyfleu i bobl eraill
- cludiant o'r cartref i'r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hwn, a gall fod yn ddefnyddiol iddo fod yn ymwybodol o CIU y dysgwr a'r hyn mae'n ei gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd argyfwng.

Nod y cynllun yw cofnodi'r camau sydd angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli eu cyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gymryd rhan lawn mewn addysg. Dylai'r rheiny sy'n dyfeisio'r cynllun gytuno ar bwy fydd yn cymryd yr awenau, ond mae cyfrifoldeb am sicrhau y caiff ei gwblhau a'i weithredu'n aros gyda'r lleoliad addysg. Mae llawer o fudiadau trydydd sector wedi cynhyrchu CIU templed sydd ar gyfer cyflwr penodol a gellid defnyddio'r rhain.

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol, neu'n amlach os daw tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Dylid eu datblygu gyda budd pennaf y dysgwr mewn cof a sicrhau bod y lleoliad addysg, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes angen) yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y dysgwr.

Pan fydd gan ddysgwr AAA dylai'r CIU fod yn gysylltiedig, neu ynghlwm wrth unrhyw gynllun addysg unigol, Datganiad AAA, neu gynllun dysgu a sgiliau.

## 3.3 Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, y dysgwr a chleifion

Mae'r ffordd y mae anghenion gofal iechyd dysgwr yn cael eu rhannu gyda gweithwyr proffesiynol cymdeithasol a gofal iechyd yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o leoliad addysg. Dylai'r CIU egluro sut y caiff gwybodaeth ei rhannu a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hyn fod yn fan cyswllt cyntaf i rieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

## 3.4 Cyfrinachedd

Mae'n bwysig bod y staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i CIU. Mae CIU yn debygol o gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Rhaid i rannu a storio'r wybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri hawliau preifatrwydd yr unigolion na'r dyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus iddynt.

## 3.5 Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain

Dylai dysgwyr sy'n gymwys i wneud hynny gael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau eu hunain. Dylai hyn gael ei adlewyrchu o fewn CIU y dysgwr.

Lle bo modd, dylai dysgwyr gael yr hawl i gario eu meddyginiaeth a'u dyfeisiau perthnasol eu hunain, neu allu cael mynediad cyflym i'w meddyginiaeth. Efallai y bydd rhai dysgwyr angen lefel briodol o oruchwyliaeth.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd eu meddyginiaeth neu gynnal gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dilyn trefniadau diffiniedig y lleoliad, y cytunwyd arnynt yn y CIU. Dylid hysbysu rhieni cyn gynted â phosibl fel y gellir ystyried trefniant arall a dylid ceisio cyngor iechyd lle y bo'n briodol.

## 3.6 Cadw cofnodion

Mae'n rhaid i weinyddu pob meddyginiaeth gael ei gofnodi ar y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig lle y bydd rhieni yn cael gwybod am y diffyg cydymffurfio hyn cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwr yn gyfrifiadurol er mwyn caniatáu mynediad cyflym a hawdd gan y staff priodol. Gall systemau data hefyd ganiatáu mynediad hawdd i'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer staff y gellir eu rhoi mewn ystafelloedd dosbarth lle nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr.

Rhaid i weithrediad systemau o'r fath gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

## 4. Arfer annerbyniol

Nid yw'n arfer derbyniol i:

- atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai y byddai mynychu'r lleoliad yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu eraill
- atal dysgwyr rhag cael mynediad at eu hanadlwyr neu feddyginiaeth eraill yn hawdd, na'u rhwystro rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo angen
- cymryd yn ganiataol bod pob dysgwr â'r un cyflwr angen yr un driniaeth
- anwybyddu barn y dysgwr neu eu rhieni, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gall y safbwyntiau hyn gael ei ymholi a safbwyntiau ychwanegol eu ceisio yn brydlon)
- anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gartref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai fod hyn wedi ei bennu'n addas yn eu CIU
- anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu sydd angen cymorth i ystafell feddygol neu brif swyddfa heb gwmni neu gyda rhywun sydd ddim yn gallu eu monitro yn iawn
- cosbi dysgwr am eu cofnod presenoldeb os bydd yr absenoldeb yn gysylltiedig â'u hanghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldeb awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser teithio i'r ysbyty neu i apwyntiad nac amser adfer rhag triniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrwyon lle mae cofnodion presenoldeb yn rhan o'r cymhelliant
- gwneud cais am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr yn hwyr. Dylid gwneud cais amdanynt mewn da bryd. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i addasiadau neu amser ychwanegol sydd ei angen mewn ffug arholiadau neu brofion eraill
- atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu gymryd seibiant toiled neu seibiant arall pryd bynnag sydd ei angen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol
- ei gwneud yn ofynnol i rieni, neu fel arall gwneud iddynt deimlo rheidrwydd arnynt, i fynychu'r lleoliad addysg, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys materion mynd i'r toiled
- disgwyl neu achosi i riant roi'r gorau i'w gwaith neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr
- gofyn i ddysgwr adael y dosbarth neu weithgaredd os oes angen iddynt weinyddu meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'u hanghenion iechyd
- atal neu greu rhwystrau diangen i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd ar eu haddysg, gan gynnwys teithiau, e.e. drwy fynnu bod rhiant i fynd gyda'r dysgwr.

# Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol

O fewn y cyd-destun addysgol, caiff amryw ddyletswyddau eu gosod ar ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n berthnasol i ddiogelu a lles dysgwyr. Amlinellir y prif ddarpariaethau yn yr adrannau isod. Nid yw'r amlinelliad hwn yn rhestr gynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac nid yw'r adrannau unigol yn ddatganiad awdurdodol nac yn ddisgrifiad o'r cyfreithiau eu hunain.

## Dyletswyddau statudol ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

- Wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) hyrwyddo lles dysgwyr yn yr ysgol (Adran 21(5) Deddf Addysg 2002). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion gofal iechyd.
- Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. y rhai o dan 18 oed) sy'n ddysgwyr yn yr ysgol (gweler adran 175(2) Deddf Addysg 2002).
- Mae cyrff llywodraethu hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – gweler isod.

## Dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol

- Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â darparu addysg ar gyfer eu hardal (gweler yn benodol adrannau 13 i 14, 15A, 15B Deddf Addysg 1996).
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddent fel arall yn ei dderbyn am unrhyw gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall (gweler adran 19(1) Deddf Addysg 1996). Ar gyfer pobl ifanc (h.y. y rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 18 oed), mae gan awdurdodau lleol bŵer (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau o'r fath yn yr amgylchiadau hynny (gweler adran 19(4) Deddf Addysg 1996). Wrth benderfynu pa drefniadau i'w gwneud o dan adran 19(1) neu (4) yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. dan 18 oed – gweler adran 175(1) Deddf Addysg 2002).
- Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 15 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu gwasanaethau yn eu hardal gyda'r diben o atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chefnogaeth ac amrywiaeth o ddibenion cysylltiedig.
- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng gwahanol bobl a chyrff. Mae hyn yn cynnwys bwrdd iechyd a GIG o fewn yr ardal awdurdod lleol.

Rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud gyda'r bwriad o:

- wella lles plant yn yr ardal
- gwella ansawdd y gofal a chymorth i blant a ddarperir yn yr ardal
- amddiffyn plant sy'n wynebu neu sydd mewn perygl o ddioddef camdrin, esgeuluso neu niwed arall (gweler adran 25 Deddf Plant 2004).

- Mae Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 S.I. 1999/2 yn nodi gofynion (cyfrifoldeb awdurdodau lleol) ynghylch cyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion o ran llety ar gyfer archwilio a thrin dysgwyr yn feddygol a gofalu am ddysgwyr sy'n sâl neu wedi'u hanafu (rheoliad 5).
- Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – gweler isod.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf honno; efallai na fydd eraill. Mae amrywiol ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n berthnasol yng nghyd-destun dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sydd hefyd yn anabl.

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol beidio â gwahaniaethu, aflonyddu nac erlid dysgwyr anabl ac mewn rhai achosion, bersonau penodol eraill. Mae'r corff cyfrifol hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (adran 85 Deddf Cydraddoldeb 2010). Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a gweithredu strategaeth hygyrchedd mewn perthynas ag ysgolion y maent yn gorff cyfrifol amdanynt. Mae hon yn strategaeth er mwyn (dros gyfnod penodol):

- cynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgolion
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y gall dysgwyr anabl fanteisio ar addysg a manteision, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion
- gwella darpariaeth gwybodaeth i ddysgwyr anabl sydd ar gael yn rhwydd i ddysgwyr nad ydynt yn anabl

(Gweler paragraff 1 o Atodiad 10 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.)

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol baratoi a gweithredu cynllun hygyrchedd. Mae cynnwys cynllun o'r fath yn debyg i gynnwys strategaeth hygyrchedd, heblaw ei fod yn berthnasol i'r ysgol benodol (paragraff 3 o atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010). Mewn perthynas ag ysgol a gynhelir a meithrinfa a gynhelir, y corff cyfrifol yw'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu. Mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol.

Mae awdurdodau lleol a chorff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol (e.e. ysgolion a gynhelir) yn destun dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hyn yn gofyn iddynt, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb (adran 149). Maent hefyd o dan ddyletswyddau penodol at y diben o alluogi gwell perfformiad o ddyletswydd cydraddoldeb

y sector cyhoeddus (gweler Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011 S.I.2011/1064).

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn un ddeddf sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrannau gwasanaethau cymdeithasol integredig gyda gogwydd teuluol cryf.
- O safbwynt polisi a chyflenwi Cymreig, mae Deddf 2014 yn ceisio sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc yn cael eu darparu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn CCUHP.
- Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan adran 15 Deddf 2014 i ddarparu gwasanaethau ataliol yn eu hardal. Diben y gwasanaethau hyn fyddai atal neu ohirio datblygiad angen pobl am ofal a chefnogaeth.
- Datblygwyd Deddf 2014 gan ddefnyddio'r 'model pobl' sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i bobl (sef plant, oedolion a gofalwyr) yn unol â'u hanghenion unigryw. Mae hyn yn golygu nad yw plant yn cael eu trin ar wahân ond yn hytrach fel rhan o deuluoedd a chymunedau. Mae hyn wedi caniatáu i'r Ddeddf 2014 ddarparu system ofal gydlynol a mwy integredig.
- Mae lles a'r canlyniadau mae pobl yn dymuno eu cyflawni yn ganolog i'r ddeddfwriaeth; mae'r diffiniad o les yn y Ddeddf, ac yn y datganiad lles, ill dau'n cydnabod bod sicrhau hawliau yn allweddol i sicrhau bod plant yn gallu siarad drostynt eu hunain, neu gael rhywun a all wneud hynny ar eu rhan nhw fel eu bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## Cyfraith gwlad

Fel rhan o gyfraith gwlad, mae gan y rheiny sy'n gyfrifol am ofal a goruchwylio plant, gan gynnwys athrawon a staff eraill yr ysgol sy'n gyfrifol am blant, ddyletswydd o ofal i weithredu fel y byddai unrhyw riant rhesymol ddoeth yn ei wneud wrth ofalu am eu plant eu hunain. Dylai unigolyn sy'n gyfrifol am ofal a goruchwylio plant wneud yr hyn sy'n rhesymol er mwyn diogelu neu hybu lles y plentyn. Fodd bynnag, mae hyn yn destun, er enghraifft, gorchymyn llys yn gwahardd cymryd camau penodol mewn perthynas â'r plentyn heb ganiatâd y llys (adran 3(5) o Ddeddf Plant 1989).

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i UNCRC fel sail i ategu ei pholisïau ynghylch plant a phobl ifanc. Mae'r dull a amlinellir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar ac yn gyson â darpariaethau CCUHP, sy'n cynnwys:

- bod gan blant yr hawl i addysg (Erthygl 28)
- y dylai oedolion feddwl am fuddiannau gorau plant a phobl ifanc wrth wneud dewisiadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 3)

- y dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael y gofal a'r cymorth sydd ei angen fel y gallant fyw bywyd llawn a gweddus (Erthygl 23)
- bod gan bob plentyn yr hawl i ddweud eu barn ymhob mater sy'n effeithio arnynt, a'r hawl i'w barn gael ei chymryd o ddifrif (Erthygl 12).

## Darpariaethau perthnasol eraill

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rheoleiddio prosesu data personol, sy'n cynnwys ei ddal a'i ddatgelu.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae Deddf a rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn ymdrin â chyfyngiadau (e.e.  o ran meddiant) ar gyffuriau sy'n cael eu rheoli. Gall dysgwyr gael cyffuriau rheoledig trwy bresgripsiwn.

## Atodiad 2: Templedi ffurflenni

Efallai y bydd lleoliadau addysg eisiau defnyddio neu addasu'r ffurflenni a restrir isod yn ôl eu polisïau penodol ar gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

- Ffurflen 1 – Cysylltu â'r gwasanaethau brys
- Ffurflen 2 – Cytundeb rhieni i leoliad addysg roi meddyginiaeth
- Ffurflen 3 – Cytundeb pennaeth/pennaeth lleoliad i roi meddyginiaeth
- Ffurflen 4 – Cofnod o feddyginiaeth a gaiff ei chadw a'i rhoi i ddysgwr unigol
- Ffurflen 5 – Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob dysgwr – yn ôl dyddiad
- Ffurflen 6 – Cais i ddysgwr gario/weinyddu eu meddyginiaeth eu hunain
- Ffurflen 7 – Cofnod hyfforddiant staff – rhoi meddyginiaethau
- Ffurflen 8 – Adrodd am ddigwyddiadau meddyginiaeth/gofal iechyd

Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn yn ddogfennau Word o learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy er mwyn galluogi ysgolion neu leoliadau i'w personoli nhw.

## Ffurflen 1: Cysylltu â'r gwasanaethau brys

**Gwneud cais am Ambiwlans**
Ffoniwch **999**, gofynnwch am ambiwlans, a byddwch yn barod gyda'r wybodaeth ganlynol lle bo hynny'n bosibl.

1. Rhowch eich rhif ffôn.
2. Rhowch eich lleoliad fel a ganlyn [nodwch eich cyfeiriad].
3. Rhowch y cod post [rhowch eich cyfeiriad].
4. Rhowch yr union leoliad yn y lleoliad addysg [rhowch ddisgrifiad byr].
5. Rhowch eich enw.
6. Rhowch enw'r dysgwr a disgrifiad byr o symptomau.
7. Rhowch wybod i'r Ganolfan Ambiwlans pa fynedfa sydd orau a dywedwch y bydd rhywun yn cwrdd â'r criw ac yn mynd â nhw i [enw'r lleoliad].
8. Peidiwch â rhoi'r ffôn i lawr nes bod y wybodaeth wedi cael ei hailadrodd yn ôl.

Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ailadrodd gwybodaeth os gofynnir i chi wneud hynny.

Rhowch gopi wedi'i gwblhau o'r ffurflen hon ger yr holl ffonau yn y lleoliad addysg.

## Ffurflen 2: Cytundeb rhieni i leoliad addysg roi meddyginiaeth

**Mae [rhowch enw'r lleoliad addysg] angen eich caniatâd chi i roi meddyginiaeth i'ch plentyn. Llenwch a llofnodwch y ffurflen hon er mwyn galluogi hyn.**

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad addysg | |
| Enw'r plentyn | |
| Dyddiad geni | / / |
| Grŵp/dosbarth | |
| Angen gofal iechyd | |

**Meddyginiaeth**

| | |
|---|---|
| Enw/math o feddyginiaeth (fel a ddisgrifir ar y cynhwysydd) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad ei roi | / / | Dod i ben | / / |

Dyddiad adolygu wedi'i gytuno i gael ei nodi gan [enw'r aelod staff]

| | |
|---|---|
| Dos a dull | |
| Amser | |
| Rhagofalon arbennig | |
| Oes yna unrhyw sgil effeithiau sydd angen i'r lleoliad wybod amdanynt? | |

Hunan-weinyddu (dilëwch fel bo angen) **Ie/Na**

Camau gweithredu mewn argyfwng

| |
|---|
| |

**Manylion cyswllt**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| Perthynas i'r plentyn | |
| Cyfeiriad | |

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi drosglwyddo'r feddyginiaeth yn bersonol i [*aelod staff y cytunwyd arnynt*]

| |
|---|
| |

Rwy'n deall bod angen i mi roi gwybod i'r lleoliad am unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig.

Dyddiad   /   /   Llofnod(ion) …………………………………………........

## Ffurflen 3: Cytundeb pennaeth/pennaeth lleoliad i roi meddyginiaeth

Enw'r lleoliad

Cytunir y bydd [enw'r dysgwr] ………………………………………………. yn derbyn

[swm neu ystod swm ac enw'r feddyginiaeth]……………………………………

yn ddyddiol am ………[amser y dylid rhoi'r feddyginiaeth, e.e. amser cinio/egwyl prynhawn]

Bydd [enw'r dysgwr]……………………………………………. yn cael/yn cael eu goruchwylio

wrth iddo/i gymryd ei f/meddyginiaeth gan ……………………………[enw aelod staff]

Bydd y trefniant hwn yn parhau nes [naill ai diwedd y cwrs meddyginiaeth neu nes y daw cyfarwyddiadau gan rieni/gofalwyr]…………………………………………………………

Dyddiad

Llofnod ………………………………………………

[Y pennaeth/pennaeth y lleoliad/aelod staff penodol]

## Ffurflen 4: Cofnod o feddyginiaeth a gaiff ei chadw a'i rhoi i ddysgwr unigol

Enw'r lleoliad

Enw'r dysgwr

Dyddiad y darparwyd meddyginiaeth gan riant

Grŵp/dosbarth

Faint a dderbyniwyd

Enw a chryfder y feddyginiaeth

Dyddiad dod i ben

Faint ddychwelwyd

Dos ac amlder y feddyginiaeth

Llofnod staff ………………………………………………………

Llofnod rhiant/gofalwr ……………………………………………………………

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenlythrennau staff | | | |
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |
| Blaenlythrennau staff | | | |
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |
| Blaenlythrennau staff | | | |
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |
| Blaenlythrennau staff | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |
| Blaenlythrennau staff | | | |
| Dyddiad | | | |
| Amser rhoi | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw aelod staff | | | |
| Blaenlythrennau staff | | | |

## Ffurflen 5: Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob dysgwr – yn ôl dyddiad

| Enw lleoliad | |
|---|---|

| Dyddiad | Enw’r dysgwr | Amser | Enw'r feddyginiaeth | Dos a roddwyd | Unrhyw adwaith | Llofnod staff | Enw wedi'i brintio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

## Ffurflen 6: Cais i ddysgwr gario/gweinyddu eu meddyginiaeth eu hunain

Rhaid i riant/gofalwr lenwi'r ffurflen hon.

**Os oes gan staff unrhyw bryderon, trafodwch y cais hwn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol.**

Enw'r lleoliad

Enw'r dysgwr

Grŵp/dosbarth

Cyfeiriad

Enw'r feddyginiaeth

Cario a gweinyddu

Gweinyddu o leoliad storio

Gweithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng

**Manylion cyswllt**

Enw

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Perthynas i'r dysgwr

Hoffwn i fy mhlentyn weinyddu a/neu gario eu meddyginiaeth eu hunain.

Llofnod rhiant/gofalwr ………………………………… Dyddiad

Rwy'n cytuno i weinyddu a/neu gario fy meddyginiaeth fy hunan. Os ydw i'n gwrthod gweinyddu fy meddyginiaeth fel a gytunwyd, caiff y cytundeb hwn ei adolygu.

Llofnod y dysgwr...…………………………………. Dyddiad

## Ffurflen 7: Cofnod hyfforddiant staff – rhoi meddyginiaethau

Sicrhewch bod cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael ei ddiweddaru.

| | |
|---|---|
| Enw lleoliad | |
| Addysg | |
| Math o hyfforddiant | |
| Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant | / / |
| Darparwyr yr hyfforddiant | |
| Swydd a theitl | |

Rwy'n cadarnhau bod [enw aelod staff] …………………………….. wedi derbyn yr hyfforddiant a fanylir uchod ac maent yn gymwys i weinyddu unrhyw driniaeth angenrheidiol.

Rwy'n awgrymu y dylai'r hyfforddiant gael ei ddiweddaru [nodwch pa mor aml] ……………………..

Llofnod yr hyfforddwr..…………………………… Dyddiad

Rwy'n cadarnhau i mi dderbyn yr hyfforddiant a fanylir uchod.

Llofnod aelod staff.……………………………… Dyddiad

Dyddiad adolygu sydd wedi’i awgrymu

## Ffurflen 8: Adrodd am ddigwyddiadau meddyginiaeth/gofal iechyd

Enw'r dysgwr: ______________________________

Cyfeiriad cartref: __________________________________ Rhif ffôn: __________

Dyddiad y digwyddiad: _____________ Amser y digwyddiad: _____________

---

**Meddyginiaeth a dos cywir:**

---

**Fel arfer, gweinyddir y feddyginiaeth gan:**

Dysgwr □
Dysgwr dan oruchwyliaeth staff □
Nyrs/aelod o staff yr ysgol □

---

**Math o gamgymeriad:**

Gweinyddwyd y dos 30 munud wedi'r amser rheolaidd □

Hepgoriad □ Dos anghywir □ Dos ychwanegol □

Dysgwr anghywir □

Dos wedi'i roi heb fod caniatâd ar ffeil □ Deietegol □

Dos wedi'i roi gan unigolyn heb awdurdod □

---

**Disgrifiad o'r digwyddiad:**

---

**Camau gweithredu:**

□ Rhoi gwybod i riant; enw, dyddiad ac amser____________________________________

□ Rhoi gwybod i nyrs yr ysgol: enw, dyddiad ac amser______________________________

□ Rhoi gwybod i feddyg: enw, dyddiad ac amser__________________________________

□ Rhoi gwybod i reolaeth gwenwyn □ Dysgwr wedi'i hebrwng adref □ Dysgwr wedi'i anfon i'r ysbyty

□ Arall:

---

**Nodyn:**

---

# Atodiad 3: Cysylltiadau defnyddiol[28]

## Asthma

1. Asthma UK Cymru
   Llinell gyngor: 0300 222 5800
   www.asthma.org.uk

2. *Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2014)
   ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/160224-salbutamol-inhaler-guidance-cy.pdf

## Sioc anaffylactig

3. Allergy UK
   Llinell gymorth: 01322 619898
   www.allergyuk.org

4. Anaphylaxis Campaign
   Llinell gymorth: 01252 542029
   www.anaphylaxis.org.uk

## Sefydliadau cefnogi plant

5. Action for Children
   Ffôn: 0300 123 2112
   www.actionforchildren.org.uk

6. Action for Sick Children
   Llinell gymorth: 0800 744519
   www.actionforsickchildren.org.uk

7. Barnardo's Cymru
   Ffôn: 02920 493387
   www.barnardos.org.uk/wales

8. Plant yng Nghymru
   Ffôn: 02920 342434
   www.plantyngnghymru.org.uk

## Diabetes

9. Diabetes UK Cymru
   Ffôn: 02920 668276
   www.diabetes.org.uk/In_Your_Area/Cymru

[28] Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gynnwys unrhyw ddolenni allanol a restrir yn y ddogfen hon.

Templed Gofal Iechyd Unigol Diabetes
www.diabetes.org.uk/Guide-to-diabetes/Your-child-and-diabetes/Schools/IHP-a-childs-individual-healthcare-plan

Pecynnau adnoddau ysgolion a rhieni Diabetes UK
www.diabetes.org.uk/Guide-to-diabetes/Your-child-and-diabetes/Schools/Diabetes-in-schools-resources

## Epilepsi

10. Epilepsy Action Cymru
Ffôn: 01633 253407
Llinell gymorth: 0808 800 5050
www.epilepsy.org.uk/involved/branches/cymru/cymraeg

11. Epilepsi Cymru
Llinell gymorth: 0800 228 9016
www.epilepsy-wales.org.uk

12. Young Epilepsy
Llinell gymorth: 01342 831342
www.youngepilepsy.org.uk

## Anawsterau dysgu

13. Anabledd Dysgu Cymru
Ffôn: 02920 681160
www.adcymru.org.uk

14. MENCAP Cymru
Llinell gymorth: 0808 808 1111
www.mencap.org.uk/cymru

15. Prosiect Cynghori Anghenion Arbennig (SNAP) Cymru
Llinell gymorth: 0845 120 3730
www.snapcymru.org/?lang=cy

## Sefydliadau cymorth â sail meddygol

16. Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Llinell gymorth: 0808 800 4104
www.autism.org.uk/?nation=wales&sc_lang=en-GB

17. Bobath Canolfan Therapi Plant Cymru
Ffôn: 029 2052 2600
www.bobathwales.org

18. Cerebra – for brain injured children and young people
Ffôn:: 01267 244200
w3.cerebra.org.uk

19. Cymdeithas Ymchwil Crohn's mewn Plentyndod (CICRA) – ar gyfer plant â Crohn's a colitis
Ffôn: 0208 949 6209
www.cicra.org

20. CLIC Sargent – ar gyfer plant â chanser
Llinell gymorth: 0300 330 0803
www.clicsargent.org.uk

21. Coeliac UK
Llinell gymorth: 0333 332 2033
www.coeliac.org.uk/local-groups/?region=wales

22. Ymddiriedolaeth Cystic Fibrosis
Llinell gymorth: 0300 373 1000
www.cysticfibrosis.org.uk

23. Headway – y gymdeithas anaf i'r ymennydd
Llinell gymorth: 0808 800 2244
www.headway.org.uk/home.aspx

24. Migraine Action
Ffôn: 08456 011 033
www.migraine.org.uk

25. Cymdeithas Multiple Sclerosis
Llinell gymorth: 0808 800 8000
www.mssociety.org.uk/ms-resources/what-ms-welshenglish-bilingual-version

26. Muscular Dystrophy UK
Llinell gymorth: 0800 652 6352
www.musculardystrophyuk.org

27. National Attention Deficit Disorder Information and Support Service (ADDiSS)
Ffôn: 0208 952 2800
www.addiss.co.uk

28. National Eczema Society
Llinell gymorth: 0800 089 1122
www.eczema.org

29. Prader-Willi Syndrome Association UK
Llinell gymorth: 01332 365676
www.pwsa.co.uk

30. Spina Bifida and Hydrocephalus Information (Shine)
Ffôn: 01733 555988
www.shinecharity.org.uk

31. Welsh Association of ME and CFS Support
Llinell gymorth: 02920 515061
www.wames.org.uk

## Iechyd meddwl

32. Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)
www.mental-health-matters.org.uk/page151.html

33. Mind Cymru
Ffôn: 02920 395123
www.mind.org.uk/about-us/mind-cymru-cymraeg

## Cyrff cyhoeddus

34. Contact a Family Cymru – ar gyfer teuluoedd sydd â phlant anabl
Llinell gymorth: 02920 396624 neu 01978 351769
www.cafamily.org.uk/advice-and-support/in-your-area/offices/cardiff

35. Comisiynydd Plant Cymru
Ffôn: 01792 765600
www.complantcymru.org.uk

36. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llinell gymorth: 0808 800 0082
www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru

37. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Ffôn: 02920 263120
www.hse.gov.uk/languages/welsh.htm

38. National Children's Bureau Council for Disabled Children
Ffôn: 020 78436000
www.ncb.org.uk

39. Galw Iechyd Cymru
Ffôn: 0845 46 47
www.nhsdirect.wales.nhs.uk/contactus/feelingunwell?locale=cy

40. Swyddfa Cymru'r Comisiynydd Gwybodaeth
Ffôn: 029 2067 8400
Llinell gymorth: 0303 123 1113
ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh

## Hawliau plant

41. Hawliau Plant Cymru
    Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhestr o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc, waeth pwy ydynt neu ble maent yn byw. Yr hawliau hyn yw'r pethau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus.
    www.hawliauplant.cymru

## Nam ar y synhwyrau

42. Action on Hearing Loss
    Llinell gymorth: 0808 808 0123
    Ffôn testun: 0808808 9000
    www.actiononhearingloss.org.uk/default.aspx

43. The National Deaf Children's Society (NDCS) Cymru
    Ffôn: 08088 008880
    www.ndcs.org.uk/family_support/support_in_your_area/wales

44. RNIB Cymru (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall)
    Llinell gymorth: 0303 123 9999
    www.rnib.org.uk/wales-cymru-1

45. Sense Cymru – gwasanaethau ar draws Cymru ar gyfer pobl fyddar a dall a'u teuluoedd
    Ffôn: 0300 330 9280
    Ffôn testun: 0300 330 9282
    www.sense.org.uk/content/sense-cymru-wales

## Lleferydd ac iaith

46. Afasic Cymru – yn helpu plant sy'n cael trafferth i siarad a deall
    Llinell gymorth: 0300 666 9410
    www.afasiccymru.org.uk